## RHINOGAU

Y bwlch sy'n gysylltiedig fwyaf â'r ardal bryniau hon yw'r adwy amlwg Bwlch Drws Ardudwy, gellir ei weld o sawl ongl ac mae'n dominyddu'r dirwedd gyfan. Ardudwy oedd enw'r cwmwd ac er bod bylchau pwysig eraill, ac yn haws, o'r Dwyrain i'r Gorllewin, dyma'r un y mae pobl yn ei gofio.

**Bwlch Coch SH 749157**
Nid oes enw ar y mapiau heddiw, ond mae'r enw i'w weld fel enw fferm Bwlch Coch Isaf. Bwlch ar lwybr pwysig ar un adeg, yn dod o Ddolgellau i'r Gorllewin. Mae'n cael ei nodi ar fap John Evans o 1795 o Ogledd Cymru.

**Bwlch Cwmmaria SH 623186**
Breuan yw'r hen enw ar y cwm; naill ai, breuan 'felin law, maen troi' neu breuan 'cigfran'. Gallai'r naill neu'r llall fod yn bosibl oherwydd bo'r adar i'w gweld ar hyd a lled Eryri, hefyd, defnyddiwyd creigiau graean yr ardal ar gyfer melinau ar un adeg. Bwlch Cwm-breuan 1837 AO.

**Bwlch Drws Ardudwy SH 665282**
Dyma'r drws 'adwy' sy'n rhoi mynediad drwy'r mynyddoedd i Ardudwy. Y ddau 'bostyn drws' sef y Rhiniogau sydd ar y naill ochr neu'r llall i ffurfio'r drws. Hen air ar adwy 'bwlch' oedd drws, pan anghofiwyd hyn gan rai, roedd tuedd i ychwanegu'r gair bwlch at yr hen enw.

**Bwlch y Llan SH 670177**
Mae'r hen lwybr yn mynd o gwmpas y bryniau tuag at y llan 'eglwys' yn Llanaber.

**Bwlch Du SH 673359**
Y du 'tywyll, du'; fodd bynnag, gellid defnyddio'r gair du yn ffigurol i ddisgrifio ymdeimlad o ragargoeli neu anhawster.

**Bwlch Gwilym SH 658329**
Yr enw personol Gwilym; enw sy'n gysylltiedig a'r Llydaweg *Guilherm*, Ffrangeg *Guillaume*.

**Bwlch Rhiwgyr SH 627200**
Mae'r enw heddiw yn rhoi rhiw 'llechwedd' + gyr 'gyrru' (anifeiliaid); tra bo'r Cambrian Register 1796 yn rhoi yr enw fel Bwlch y Rhiwgur, a dyma'r ffurf ar map 1838 yr AO, gyda gur 'poen, gofid'.

**Bwlch y Tyddiad SH 657300**
Y tebygrwydd yw mai camsillafiad y gair tudd + 'caddyg, mwrllwch' + -iad sydd i'w weld yma. Neu a yw'r ffurf tyddia, sef amrywiad y gair oetyddia 'gofyn i rieni merch am ganiatâd i'w phriodi', sydd yno yn yr enw oherwydd agosrwydd y bwlch i Lyn Morwynion, morwyn 'merch ifanc (ddibriod)'. Bwlch Tyddiad sydd ar fapiau'r AO i gyd.